# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Mawrth 2003 i'w hateb ar 18 Mawrth 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y farchnad gystadleuol rhwng cartrefi gofal cyhoeddus a phreifat ar Ynys Môn. (OAQ23317)

**2. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i hybu ffyniant economaidd yn Sir Benfro. (OAQ23269)

**3. David Ian Jones (Gogledd Cymru);** A yw'r Prif Weinidog yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i'r cyhoedd ynghylch camau i'w cymryd pe bai ymosodiad terfysgol yn digwydd yng Nghymru. (OAQ23270)

**4. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A all y Gweinidog roi sicrwydd i'r Cynulliad ei fod wedi ystyried y cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw argyfwng mawr a allai ddigwydd yng Nghymru, ynghyd â'r paratoadau, a bod ganddo ffydd yn y cynlluniau hynny. (OAQ23272)

**5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar oblygiadau'r sefyllfa ddiweddaraf o ran rhyfel posibl yn Irac i Gymru. (OAQ23316)

**6. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar unrhyw dargedau nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u bodloni yn y dogfennau strategol a gyhoeddwyd ganddi hyd yma. (OAQ23286)

**7. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau a gymerwyd yn ystod y chwe mis diwethaf i roi ar waith y polisïau a amlinellwyd yn y Cynllun i Gymru. (OAQ23276)

**8. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar flaenoriaethau ei Lywodraeth o ran sicrhau cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru yn ystod y mis nesaf. (OAQ23277)

**9. Elin Jones (Ceredigion);** Pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet

am yr ymrwymiadau y bydd yn rhaid i'ch Llywodraeth eu cyflawni erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad. (OAQ23284)

**10. Gwenda Thomas (Castell-nedd);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Swyddfa'r Post Cyf. ynghylch dynodi swyddfeydd post trefol. (OAQ23319) **R**

**11. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cyfarwyddyd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i awdurdodau lleol i'w helpu i leihau nifer y ceisiadau am iawndal yn eu herbyn. (OAQ23315) **R**

**12. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar flaenoriaethau polisi ei Lywodraeth ar gyfer Gogledd Cymru yn ystod y mis nesaf. (OAQ23274)

**13. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyflawni yn Sir Drefaldwyn ers sefydlu'r Llywodraeth Bartneriaeth. (OAQ23343)

**14. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar rôl ei Lywodraeth o ran sicrhau bod mwy o bobl yn pleidleisio yn etholiadau nesaf y Cynulliad. (OAQ23275)

**15. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ffordd y mae polisïau trafnidiaeth ei Lywodraeth wedi effeithio ar bobl Cymoedd y De. (OAQ23283)